YSGOL LLANFYLLIN

21.01.22

Annwyl rieni a gwarchodwyr

Bydd gwaith cartref Cyfnod Allweddol 2 (Bl 3-6) yn ail gychwyn y tymor hwn. Bydd pob disgybl yn derbyn llyfr gwaith cartref a fydd yn cynnwys yr holl dasgau a chanllawiau. Does dim disgwyl i'ch plentyn gwbhlau pob darn o waith yn eu llyfr. Mae croeso iddynt gwblhau'r gwaith ar TEAMS neu J2e. Mi fydd y tasgau gwaith cartref yn cael ei seilio ar lyfr darllen unigol eich plentyn. E.e. Os yw eich plentyn yn darllen "O na Nel!" ar y pryd, yna byddant yn dewis tasg(au) i'w gwblhau yn seiliedig ar y llyfr yna. Gofynnir i ddisgyblion gwblhau y tasgau pryd maent yn dymuno. Efallai un wythnos byddant yn cwblhau 2/3 ac wythnosau eraill dim.
Disgwylir i'r disgyblion ddychwelyd a'u llyfr gwaith cartref erbyn dydd Gwener 25ain o Fawrth, 2022. Yn dilyn hyn, bydd yr athrawes yn edrych ar y llyfrau a TEAMS ac yna yn cyflwyno tystysgrif ymdrech â adborth erbyn diwedd y tymor.

Disgwylir hefyd i ddisgyblion ddarllen ac ymarfer TTRockstars bob wythnos.
Os oes gennych chi unrhyw gwestiwn, cysylltwch a'r ysgol os gwelwch yn dda.

Diolch am eich cydweithrediad.

Yn gywir,

Sioned Vaughan

Pennaeth Cynorthwyol

Cysylltwch / Contact

Llanfyllin, Powys SY22 5BJ
Ffôn / Telephone: (01691) 648391
office@llanfyllin.powys.sch.uk
www.llanfyllin.powys.sch.uk

Tîm Arweinyddiaeth / Leadership Team

Pennaeth / Headteacher:
Mr Dewi Owen
Dirprwy Bennaeth / Deputy Headteacher:
Mr Llŷr Thomas

Penaethiaid Cynorthwyol / Assistant Headteachers

Mr Huw Lloyd-Jones
Mrs Ann Roberts
Mrs Sioned Vaughan

Rheolwr Busnes/Business Manager
Mrs Sarah Hunter

CADY/ALNCO
Mrs Rhiannon Molyneux